Ymhellach i'm neges e-bost ar 15 Ionawr 2015, rwyf yn awr mewn sefyllfa i ymateb i'ch cais am wybodaeth dyddiedig 14 Ionawr 2015, sef:

"O dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, hoffwn wybod faint o achosion a gofnodwyd yn 2014:

1. *o staff yn camddefnyddio gwefannau cymdeithasol fel Facebook, Twitter etc, boed hynny yn y gweithle neu'r tu allan. Ym mhob achos, disgrifiwch beth oedd y camddefnydd, nodwch pa wefan a ddefnyddiwyd, a pha gamau a gymrwyd yn erbyn yr aelod o staff.*
2. *o staff yn torri y Ddeddf Diogelu Data. Ym mhob achos hoffwn wybod ym mha ffordd y torrwyd y ddeddf, a pha gamau y cymrwyd wedi'r toriad."*

Nid ydym yn cadw gwybodaeth wedi ei chofnodi am staff yn camddefnyddio gwefannau cymdeithasol. Gyda golwg ar eich ail gwestiwn, mae gennym wybodaeth wedi ei chofnodi am un achos yn 2014 o wybodaeth bersonol gweithiwr cyflogedig yn cael ei rhannu'n ddamweiniol gyda gweithiwr cyflogedig arall nad oedd ganddo hawl i gael mynediad ati. Trafodwyd y mater gyda'r gweithwyr dan sylw, cafodd y wybodaeth ei dileu gan y sawl a'i derbyniodd heb hawl, rhoddwyd ymddiheuriadau, a thrafodwyd y mater gyda'r aelod o staff oedd yn gyfrifol er mwyn dysgu gwersi ac atal y peth rhag digwydd eto.

Nid wyf wedi gwneud unrhyw eithriadau; fodd bynnag, os byddwch yn dymuno cwyno ynglŷn â'r modd yr wyf wedi ymdrin â'ch cais, anfonwch neges e-bost ataf neu ysgrifennwch lythyr.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â mi'n ddi-oed, os gwelwch yn dda.

Yn gywir

Ian Phillips